# <u>CANLLAWIAU – RHODDION A LLETYGARWCH</u>

Mae'r ddogfen ganllaw hon yn nodi'r prif egwyddorion sy'n ymwneud ag unrhyw gynnig o roddion a lletygarwch. *Fe'i lluniwyd gan roi ystyriaeth ddyledus i Safonau Lleiaf Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu ar y pwnc yn ogystal â chraffu allanol gan yr archwilwyr Deloitte.*

Mae'r canllawiau yn y ddogfen hon yn rhoi fframwaith moesegol i swyddogion a staff yr heddlu bennu ffiniau derbynioldeb. Mae'n berthnasol ar gyfer pob aelod staff: swyddogion heddlu; staff heddlu, gan gynnwys staff dan gontract, staff dros dro, staff asiantaeth a staff achlysurol; cwnstabliaid gwirfoddol a phob aelod staff gwirfoddol.

Mae'n berthnasol ar gyfer buddion **a gynigir**, pa un ai a ydynt yn cael eu **derbyn neu eu gwrthod** <u>ni waeth a yw'n digwydd yn ystod oriau gwaith/dyletswydd neu tu allan i'r oriau hynny</u>. Trwy ddilyn y canllawiau hyn, bydd staff yn osgoi gosod eu hunain mewn sefyllfaoedd lle mae eu hunplygrwydd yn cael ei amau a lle nad oes modd amddiffyn eu gweithredoedd/penderfyniadau yn rhesymol.

**Cyfrifoldeb rheolwyr llinell yw sicrhau bod eu haelodau staff yn ymwybodol o'r canllawiau hyn, sydd wedi'u cymeradwyo gan y Grŵp Prif Swyddogion.**

## <u>Egwyddorion Allweddol</u>

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn disgwyl y safonau unplygrwydd ac ymddygiad personol uchaf gan bob aelod staff. Rhaid i swyddogion a staff yr heddlu ddeall sut y gallai derbyn rhoddion neu letygarwch danseilio unplygrwydd proffesiynol neu bersonol. Ni ddylai staff gamfanteisio ar eu swydd o fewn yr Heddlu, neu'r ffaith eu bod yn weithwyr heddlu, er budd personol.

Rhaid iddynt hefyd gofio bob amser am yr angen i osgoi unrhyw ganfyddiad y gallent gael eu dylanwadu gan unrhyw rodd, neu ystyriaeth arall, i ddangos ffafriaeth neu anffafriaeth tuag at unrhyw unigolyn neu sefydliad yn rhinwedd eu swyddi fel aelodau o'r Heddlu. ***Bydd glynu wrth y canllawiau hyn yn cynorthwyo ag atal cyhuddiadau o arferion llwgr neu berthnasau amhriodol gydag unrhyw aelod o'r cyhoedd neu gorff corfforaethol.***

Uned Wrthlygredd yr Adran Safonau Proffesiynol (ASP) sy'n gyfrifol am bennu pa mor dderbyniol yw unrhyw anrheg, rhodd neu letygarwch, a bydd goruchwyliaeth briodol gan y Prif Swyddog sy'n gyfrifol am faterion Safonau Proffesiynol.

**Nid** yw derbyn rhoddion am wasanaethau a roddwyd i'r cyhoedd wrth gyflawni dyletswyddau cyffredin yn gyson â'r gwerthoedd o briodoldeb a phroffesiynoldeb a ddisgwylir gan swyddogion a staff yr heddlu. Gan hynny, <u>**ni**</u> ddylai swyddogion a staff yr heddlu dderbyn unrhyw gynnig o anrheg, rhodd, ffafr neu letygarwch oherwydd gallai gwneud hynny gyfaddawdu eu hamhleidioldeb neu arwain at ganfyddiad o gyfaddawd o'r fath.

Mae swyddogion a staff yr heddlu'n ddarostyngedig i Safonau Ymddygiad Proffesiynol. Mae'r brif safon yn ymwneud â gonestrwydd ac unplygrwydd. Mae'r safon hon yn nodi'n benodol fod swyddogion yn onest ac yn gweithredu ag unplygrwydd, ac nad ydynt yn cyfaddawdu eu swydd neu'n camfanteisio arno. Mae'n egluro ymhellach na ddylai swyddogion heddlu gymell cynnig unrhyw anrheg, rhodd, ffafr neu letygarwch mewn unrhyw fodd sy'n gysylltiedig â'i swydd o fewn y gwasanaeth heddlu neu'n deillio ohoni, waeth pa un ai a ydynt ar ddyletswydd neu beidio.

Byddai'n amhosibl diffinio'r holl amgylchiadau posibl o dan ba rai y gallai aelod o'r Heddlu gael cynnig anrheg, rhodd, lletygarwch neu ostyngiad, a allai cyfaddawdu, neu gael ei weld yn cyfaddawdu, ei rolau a'i cyfrifoldebau o fewn Heddlu Dyfed-Powys. Mae cynigion o anrheg, rhodd neu letygarwch yn amrywio'n fawr yn ôl yr amgylchiadau, a byddant yn amrywio o enghreifftiau o droseddolrwydd sy'n hawdd eu hadnabod *(megis torri Deddf Llwgrwobrwyaeth 2010)* hyd at achosion o estyniad o ddiolch a chwrteisi cyffredin gwbl briodol a rhesymol nad ydynt gyfystyr ag unrhyw awgrym o weithredu'n anonest gan unrhyw un.

Dylid gweithredu'r egwyddorion hyn â synnwyr cyffredin â barn broffesiynol ddoeth.

Adolygwyd y canllawiau gan yr Adran Safonau Proffesiynol ym mis Medi 2020. Fe'u hadolygir yn flynyddol.

**Adrodd**

Rhaid i aelodau staff adrodd am unrhyw gynigion am roddion neu letygarwch sydd wedi'u gwrthod drwy'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch ar-lein *(cewch fynediad i'r gofrestr ar wefan yr Adran Safonau Proffesiynol* http://dppi/apps/acpo/GiftsHospList/). Yn yr un modd, dylid datgan yr holl roddion a lletygarwch a dderbyniwyd ar y rhestr hon.

**D.S. Pwysleisir y dylid datgan cynigion am anrhegion, rhoddion neu letygarwch waeth pa un ai a ydynt yn cael eu derbyn neu eu gwrthod gan y derbynnydd er mwyn sicrhau unplygrwydd llwyr.**

Gall anrhegion o ddiolch rhad, digymell, dilys gan aelodau o'r cyhoedd neu ddioddefwyr trosedd gael eu cynnig i dimoedd neu swyddogion unigol mewn gwerthfawrogiad diffuant am lefelau gwasanaeth arbennig. Dylid gwrthod anrhegion neu letygarwch o'r fath mewn modd sydd ddim yn achosi tramgwydd neu gywilydd i'r sefydliad neu'r unigolyn sy'n gwneud y cynnig.

Dylai swyddogion a staff yr heddlu fod yn ymwybodol y gallai gwrthod derbyn cynnig o'r fath achosi tramgwydd diangen neu rwystro perthnasau gweithio cynhyrchiol weithiau. Yn yr un modd, gall derbyn cynnig o'r fath gael ei gamddehongli ac fe allai arwain at ddisgwyliadau anghywir o ffafriaeth neu wasanaeth. ***Lle bo amheuaeth, dylid ceisio cyngor gan yr adran safonau proffesiynol.***

Ar yr achlysuron **nad** yw'n profi'n bosibl i wrthod neu ddychwelyd unrhyw rodd neu letygarwch yn ystyriol, **dylai'r derbynnydd sicrhau bod cofnod yn cael ei wneud yng nghofrestr yr heddlu.**

Bydd Pennaeth yr Adran Safonau Proffesiynol yn sicrhau craffu, archwilio a llywodraethu o'r Gofrestr, yn unol â llywodraethu corfforaethol ehangach materion unplygrwydd a gwrthlygredd.

Adolygwyd y canllawiau gan yr Adran Safonau Proffesiynol ym mis Medi 2020. Fe'u hadolygir yn flynyddol.

*Bydd cofnodion yn cynnwys (o leiaf) natur y cynnig, yr amgylchiadau o dan ba rai y gwnaed y cynnig, gwerth amcangyfrifol yr anrheg, rhodd neu letygarwch, a pha un ai a geisiwyd neu a gafwyd caniatâd i dderbyn unrhyw gynnig o'r fath.*

Mae eithriadau o'r gofyniad i gofnodi ond yn berthnasol ar gyfer yr achosion hynny o ddarpariaeth lluniaeth ysgafn byrfyfyr nas rhagwelwyd yn unol â dyletswyddau plismona, cynnyrch hyrwyddo rhad gan bartneriaethau neu o gynadleddau, neu ostyngiadau a anelir at holl aelodau'r gwasanaeth heddlu ehangach.

**Ni** chaniateir derbyn unrhyw anrheg o'r un ffynhonnell yn rheolaidd, waeth pa beth bynnag yw ei gwerth.

***Deddf Llwgrwobrwyo 2010***

Cyflwynodd Deddf Llwgrwobrwyo 2010 (effeithiol o 1 Gorffennaf 2011) dramgwydd troseddol newydd lle mae ***unigolyn neu sefydliad yn cynnig neu'n derbyn llwgrwobr i wobrwyo neu esgor ar weithgarwch, swyddogaeth neu berfformiad amhriodol***. Mae modd i hyn gynnwys anrhegion a lletygarwch corfforaethol neu letygarwch, sydd fel arall yn amhriodol.

Mae llwgrwobrwyo'n weithredol, derbyn llwgrwobrwyon yn oddefol a methu ag atal llwgrwobrwyo'n droseddau o dan y Ddeddf. Yn ogystal, byddai unigolion y canfyddir eu bod wedi cytuno i drosedd gorfforaethol, neu ei goddef, hefyd yn agored i erlyn unigol. Byddai amddiffyniad llawn ar gael i'r drosedd arbennig hon ac osgoir erlyniad os ellir dangos bod prosesau digonol mewn grym er mwyn atal llwgrwobrwyo. **Dyna pam y mae cynnwys y canllaw hwn yn bwysig.**

Nid yw'r Ddeddf yn gwahardd lletygarwch rhesymol a chymesur a gwariant hyrwyddol neu wariant busnes tebyg sydd wedi'i fwriadu i wella delwedd sefydliad masnachol, er mwyn cyflwyno gwasanaethau a chynnyrch yn well, neu sefydlu perthnasau gwresog. Fodd bynnag, mae'n amlwg y gellir defnyddio lletygarwch a gwariant hyrwyddol neu wariant busnes tebyg fel llwgrwobrwyon. Bydd ystyriaethau yn hyn o beth yn cynnwys gradd moethusrwydd rhodd neu letygarwch, ei werth cymharol, yr hyn sy'n arferol yn y diwydiant, a'r graddau i ba rai y mae'r rhodd neu'r lletygarwch yn gysylltiedig â'r busnes dan sylw. Gall bodolaeth, neu ddiffyg bodolaeth, rhoddion neu letygarwch a gynigiwyd, neu a dderbyniwyd yn y gorffennol, hefyd fod yn berthnasol.

**Egwyddorion Arweiniol – Cyngor i Swyddogion a Staff yr Heddlu ynghylch Rhoddion / Lletygarwch**

Dylai'r ystyriaethau canlynol gynorthwyo swyddogion a staff yr heddlu i bennu ffiniau derbynioldeb unrhyw rodd neu letygarwch:

Dilys:

*A yw'r cynnig hwn yn cael ei wneud oherwydd gwerthfawrogiad gwirioneddol o rywbeth yr wyf wedi'i wneud? Beth yw'r amgylchiadau? Ydw i wedi annog y cynnig hwn mewn unrhyw ffordd, neu a yw'r rhoddwr teimlo dyletswydd i wneud y cynnig hwn?*

Annibynnol:

*A fyddai'r cynnig neu dderbyniad yn cael ei ystyried yn rhesymol yng ngolwg y cyhoedd? A fyddai gwyliedydd rhesymol yn hyderus y gallwn aros yn ddiduedd ac annibynnol ym mhob amgylchiad?*

Rhydd:

*A fyddwn bob amser yn medru teimlo'n rhydd rhag unrhyw rwymedigaeth i wneud rhywbeth am gyfnewid amdano? Sut ydw i'n teimlo am briodoldeb y cynnig? Beth fyddai'r rhoddwr yn disgwyl ohonof pe bawn i'n derbyn?*

Tryloyw:

*A fyddwn i'n gyfforddus derbyn y cynnig hwn pe bai'n dryloyw i'm heddlu, cydweithwyr a'r cyhoedd, neu pe bai'n cael ei adrodd yn gyhoeddus? Beth allai'r canlyniad fod ar gyfer yr heddlu pe bai'r cynnig hwn yn cael ei dderbyn neu ei wrthod?*

Mae'r canlynol yn darparu canllawiau ychwanegol:-

**<u>Gellir</u> derbyn anrheg**:

- os yw o natur rhad neu fân *(er enghraifft, dyddiaduron, calendrau, deunydd papur neu eitemau bach arall yn ystod cynhadledd neu ymweliad cwrteisi)*
- os mai eitemau coffaol bach ydynt yn dilyn ymweliadau ag asiantaethau'r llywodraeth neu asiantaethau gorfodi'r gyfraith dramor, neu asiantaethau tebyg

Serch hynny, dylid datgan pob anrheg o'r fath yng nghofrestr yr heddlu.

**<u>Ni</u> ddylid derbyn anrheg:**

- os yw'r anrheg hwnnw wrth gwmnïoedd neu gontractwyr allanol sy'n tendro ar gyfer gwaith gyda'r heddlu neu'r gwasanaeth ehangach
- os mai taliad ariannol ydyw *(heblaw rhoddion i elusennau heddlu penodol neu elusennau a gefnogir gan yr heddlu)*
- os mai gwobrwyon ariannol ydynt sy'n deillio o gyhoeddi erthyglau sy'n ymwneud â rôl y derbynnydd bwriadedig fel aelod o'r heddlu

Serch hynny, dylid datgan pob cynnig am anrheg o'r fath yng nghofrestr yr heddlu.

**<u>Gellir</u> derbyn rhodd:**

- os ydynt yn gynigion neu'n ostyngiadau a drafodwyd drwy'r Ffederasiwn Heddlu, y Gymdeithas Uwch-arolygwyr, neu undeb llafur neu gymdeithas staff arall
- os ydynt yn ostyngiadau ar gyfer gweithwyr gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys aelodau o'r gwasanaeth heddlu, a gynigir ar y sail bod gan y sefydliad dan sylw sylfaen cwsmeriaid mawr, ac mae'r gostyngiadau o natur rhad neu ddibwys *(ac mae'r heddlu wedi cymeradwyo cynnig o'r fath)*
- os mai trefniadau teithio am ddim ydynt ar gyfer swyddogion a staff ar ddyletswydd weithredol **<u>os ydynt yn cael eu cymeradwyo a'u trafod yn ffurfiol drwy'r heddlu</u>**

Does dim gofyniad i ddatgan unrhyw rodd o'r fath yng nghofrestr yr heddlu.

Nid yw rhoddion sydd gyfystyr â budd personol o gynllun pwyntiau wrth brynu eitemau neu danwydd ar gyfer yr heddlu yn dderbyniol.

## Arian, Gostyngiadau a Lletygarwch

### Arian

**Ni** ddylai aelodau o Heddlu Dyfed-Powys dderbyn rhoddion personol o **arian** yng nghwrs eu dyletswyddau neu swydd (hyd yn oed pan nad ydynt ar ddyletswydd) os oes gan yr anrheg gysylltiad â'u dyletswyddau neu eu cyflogaeth o dan unrhyw amgylchiadau, neu os yw'n ymddangos felly, *heblaw fel rhoddion i'r Heddlu neu fel rhan swyddogol o'u dyletswydd.* **Lle y gwneir cynnig o arian fel arall, dylid ei wrthod ac adrodd amdano'n syth wrth oruchwylydd neu reolwr.**

Gellir derbyn rhoddion ar gyfer elusennau heddlu penodol. Gofynnir i bob rhoddwr sydd eisiau rhoi arian neu eitemau gwerthfawr eraill roi rhoddion yn bersonol neu eu hanfon drwy bost cofnodedig at safle heddlu. **Rhoddir derbynebau**.

Ceir rhagor o fanylion mewn perthynas ag arian yn Adran 10 (paragraffau 24 – 31) o Reolau Sefydlog yr Heddlu.

### Gostyngiadau

Bydd gostyngiadau grŵp a drefnwyd ar gyfer yr heddlu cyfan hefyd yn dderbyniol, ar yr amod eu bod yn agored ac yn cael eu trafod yn briodol drwy'r cymdeithasau staff, a'u bod yn cael eu rhoi ar y sail bod gan y sefydliad sylfaen cwsmeriaid mawr posibl yn unig. Er mwyn darparu tryloywder, rhaid cyhoeddi manylion gostyngiadau o'r fath *e.e. ar safleoedd rhyngrwyd y gymdeithas staff neu ar ffurf copi caled e.e. llyfryn, neu'r ddau.*

Er mwyn osgoi camddefnyddio'r fantais, dylid nodi manylion unrhyw delerau sydd ynghlwm â'r gostyngiadau yn glir fel bod staff yn deall unrhyw gyfyngiadau ac amodau sy'n berthnasol. Ceir gwneud trefniadau lleol heb unrhyw gysylltiad gan gymdeithas staff, i dderbyn gostyngiadau ar brisiau mynediad ar gyfer *e.e. theatrau a sinemâu, sydd hefyd ar gael yn agored ar yr un telerau i sefydliadau ar wahân i'r heddlu,*

*oherwydd maint y sylfaen cwsmeriaid posibl.*

***Gostyngiadau sydd ar gael gan gwmnïoedd penodol***

Mae rhai cwmnïoedd masnachol yn cynnig gostyngiadau ar gyfer personél y gwasanaethau brys yn gyffredinol. Pan ddaw manylion o'r fath yn hysbys *(e.e. drwy hysbysiadau ar Clued Up neu ddulliau cyfathrebu tebyg), bydd Adran Safonau Proffesiynol Pencadlys yr Heddlu'n holi'r cwmni hwnnw'n rhagweithiol am delerau cynigion o'r fath er mwyn dod i farn wybodus ynglŷn â pha un ai a yw'r trefniadau'n dderbyniol. Cyfeirir achosion o'r fath at Brif Swyddogion ar gyfer penderfyniad.*

Rhaid defnyddio cardiau gwarant neu gardiau adnabod ar gyfer dibenion sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â rhyddhau dyletswyddau swyddogol neu mewn amgylchiadau a gymeradwywyd fel arall – *er enghraifft, trefniadau teithio a gymeradwywyd.* **<u>Ni</u>** chymeradwyir defnyddio cerdyn adnabod neu gerdyn gwarant er mwyn cael gostyngiadau, gwasanaeth ffafriol, triniaeth neu fynediad at fannau adloniant, heblaw ar fusnes yr heddlu.

***(Mae hyn yn ymwneud ag annog manteision gwahanol i'r rhai sydd wedi'u cymeradwyo'n swyddogol gan yr Heddlu drwy gyflwyno prawf adnabod).***

Mae'r egwyddor hwn hefyd yn berthnasol i wisgo lifrai **pan nad ydych ar ddyletswydd** er mwyn cael mantais.

*Mae enghreifftiau penodol yn cynnwys mynediad i barciau thema neu feysydd pêl droed pan nad ydych ar ddyletswydd.*

Bydd unrhyw aelod staff sy'n defnyddio, neu'n ceisio defnyddio, ei swydd er budd preifat yn torri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol.

Wrth gwrs, mae hawl gan aelodau geisio gostyngiadau ar fusnes personol. **<u>Fodd bynnag, ni chânt wneud hynny ar y sail eu bod yn swyddog heddlu neu'n gweithio i'r gwasanaeth heddlu ar unrhyw gyfrif.</u>**

## <u>Anrhegion Tymhorol neu Anrhegion Digymell Eraill</u>

Cydnabu y bydd sefydliadau'n anfon anrhegion corfforaethol digymell bob blwyddyn, ac mewn rhai achosion, gall hyn fod yn ddigwyddiad traddodiadol.

Er y byddai rhodd o galendr hyrwyddol rhad a chwaethus cwmni'n dderbyniol, dylid ystyried natur yr anrheg yn ofalus, yn unol â'r canllaw hwn. **Ni** ddylid derbyn alcohol neu gynnyrch arall annerbyniol yn rhodd. Os yw'n cael ei ddosbarthu, dylid ei ddychwelyd a rhoi gwybod i'r rhoddwr nad oes modd derbyn yr eitem o dan gyfarwyddiadau'r heddlu.

Wrth gyflawni eu dyletswyddau neu swydd, gallai staff fynd i ddigwyddiadau lle maen nhw'n cael cynnig eitemau coffaol, marchnata neu hyrwyddo cymharol rad, *e.e. dyddiaduron, deunydd papur, allweddellau*. Mae'r rhain yn dderbyniol ar yr amod nad ydynt yn cael eu cymryd mewn niferoedd sy'n fwy na'r telerau o dan ba rai y'u cynigir.

**Derbyn Lletygarwch**

Er dibenion y gorchymyn hwn, diffiniad derbyn lletygarwch yw:

***"Derbyn adloniant, mynediad, gwasanaeth, lluniaeth neu alcohol am ddim neu am bris gostyngol gan unrhyw unigolyn neu gorff y tu allan i'r gwasanaeth heddlu."***

Rhaid trin y cynnig o letygarwch o unrhyw fath yn ofalus.

**Dylid arfer gofal arbennig pan mae lletygarwch yn cael ei gynnig gan aelodau o'r cyfryngau neu gyn-swyddogion heddlu sy'n gweithio fel ymchwilwyr preifat neu gynrychiolwyr cyfreithiol.**

Gall derbyn ei gwneud hi'n anodd osgoi'r ymddangosiad o ryw fath o rwymedigaeth i'r parti sy'n ei gynnig, a gellid dehongli'n ddiweddarach ei fod wedi effeithio ar amhleidioldeb wrth ymdrin â materion swyddogol.

Dylid cydnabod y cynnig o letygarwch o unrhyw natur gan newyddiadurwyr a'r rhai sy'n gweithio o fewn y maes newyddiadurol fel maes o sensitifrwydd arbennig y dylid craffu arno a'i ystyried yn helaeth er mwyn peidio â chyfaddawdu'r unigolyn na'r heddlu. Dylid osgoi'r achosion hyn.

Mae gwahoddiad achlysurol gan fasnachwr neu breswylydd lleol i gael cwpanaid o de neu rywbeth tebyg yn ddigon diniwed, a gellid ystyried bod hyn yn creu perthynas iach gydag aelodau o'r gymuned leol. Fodd bynnag, mae'r cynnig o fwyd neu wasanaethau am ddim gan fasnachwr lleol yn gwbl wahanol, a gall fod yn anoddach ei drin os oes

amharodrwydd i dderbyn, neu'n gwrthod, tâl a gynigir am y 'cynnig'.

Os barnwyd, at ei gilydd, ei fod yn briodol peidio â phwyso taliad pan mae wedi'i wrthod er mwyn osgoi tramgwyddo, **dylid ei wneud yn glir hefyd y bydd disgwyl i dâl cael ei dderbyn ar unrhyw achlysur arall, neu ni fydd yr unigolyn yn dychwelyd i'r safle hwnnw fel cwsmer.**

Anaml iawn y bydd categorïau amlwg penodol o wahoddiad arbennig o hael yn briodol, er enghraifft, digwyddiadau lletygarwch corfforaethol proffil uchel a ddarperir gan gontractwyr i'r heddlu neu ddigwyddiadau chwaraeon mawr. Gan hynny, dylid gwrthod unrhyw wahoddiad proffil uchel neu hael o'r fath **bob amser** oni bai bod hyn yn cael ei awdurdodi'n ysgrifenedig ymlaen llaw gan Brif Swyddog.

Enghreifftiau eraill **annerbyniol** o letygarwch:-

- cynigion o letygarwch (sydd ddim yn gysylltiedig â gweithgareddau swyddogol),
- gwyliau, teithiau tramor
- digwyddiadau o natur amhriodol, megis gwahoddiadau i sioeau neu glybiau nos
- digwyddiadau lle mae'r cyflenwad alcohol yn fwy nag ategol yn unig
- lle y gellid cwestiynu'r berthynas broffesiynol rhwng y gwesteiwr a'r Heddlu.

Bydd nifer y cynadleddau a seminarau a fynychir gan aelodau o'r heddlu'n cynnwys y cynnig o bryd bwyd neu luniaeth, a does dim rheswm i wrthod hyn, ar yr amod bod yr hyn a gynigir ar gael i **bob** cynrychiolydd. Yn ôl yr arfer, rhaid meddwl pa un ai a gellid ystyried bod derbyn yn cyfaddawdu unplygrwydd neu farn broffesiynol y derbynnydd. Ni ddylai gweithredoedd feithrin neu arwain at amheuaeth bod aelod o staff wedi'i ddylanwadu gan anrheg neu ystyriaeth i ddangos ffafriaeth neu anfantais i unrhyw unigolyn neu'r sefydliad, neu fod posibilrwydd o hyn.

**Ni ddylai aelodau staff adael i'w barn neu unplygrwydd gael ei gyfaddawdu mewn gwirionedd neu drwy oblygiad rhesymol.**

**Rhaid gwrthod cynigion o letygarwch os oes unrhyw amheuaeth ynghylch priodoldeb eu derbyn. Os derbynnir lletygarwch, rhaid bod aelodau staff yn medru ei gyfiawnhau o ran budd i'r gwasanaeth cyhoeddus.**

Mae pryd i dderbyn lletygarwch yn fater o farn. Wrth fynd i ddigwyddiadau cymdeithasol fel cynrychiolydd swyddogol Heddlu Dyfed-Powys, neu drwy wahoddiad sy'n gysylltiedig â'r gwaith, mae'n bwysig nad oes awgrym o ddylanwad amhriodol. Gall cyswllt ddigwydd y tu allan i oriau gwaith gydag unigolion a allai fod â pherthynas busnes gyda Heddlu Dyfed-Powys, neu a allai ddisgwyl perthynas o'r fath. Yn yr amgylchiadau hyn, dylai staff fod yn effro i'r arwyddocâd y gallai awgrymu wrth arsylwyr allanol neu fewnol, ac o ganlyniad. gall fod angen iddynt ystyried natur a phriodoldeb y cysylltiadau hynny.

Dylai staff fod yn effro hefyd i'r bygythiadau posibl i hyder a ffydd y cyhoedd, a gyflwynir drwy dderbyn lletygarwch corfforaethol. Gall hyn gymryd sawl ffurf, gan gynnwys presenoldeb mewn digwyddiadau nodedig megis digwyddiadau chwaraeon; gwyliau; prydau bwyd a digwyddiadau sy'n ymwneud ag enwogion, a allai fod yn ddeniadol iawn ond yn anodd eu cyfiawnhau. Gall y rhain arwain at honiadau o droseddolrwydd, amhriodoldeb masnachol neu anghysondeb â'r 'Safonau Ymddygiad Proffesiynol'.

Dylai ehangder a lleoliad y lletygarwch bennu'r graddau i ba rai y mae cynnig o letygarwch yn dderbyniol. Rhaid iddo fod yn gymesur, ac nid er pleser yn unig. Fel arall, dylai'r Prif Gwnstabl gymeradwyo presenoldeb, ac oni bai ei fod yn caniatáu fel arall, rhaid i'r aelod staff dan sylw fodloni'r gost lawn. ***Prawf ymarferol yw pa un ai a fyddai lletygarwch yn cael ei roi yn yr un modd gan Heddlu Dyfed-Powys, neu a allai wneud hynny.***

Dylid ond derbyn cynigion o deithio rhad a gwahoddiadau i gynadleddau neu ddigwyddiadau eraill, yn enwedig mewn lleoliadau 'egsotig', mewn amgylchiadau eithriadol, a dim ond â chymeradwyaeth y Prif Gwnstabl.

Felly, fel canllaw cyffredinol:-

**<u>Gellir</u> derbyn lletygarwch os yw'n:**

- ymestyn i ddarpariaeth fyrfyfyr o luniaeth ysgafn wrth gyflawni dyletswyddau plismona
- pryd o fwyd confensiynol a baratowyd yn ystod diwrnod gwaith gan wasanaeth heddlu arall neu asiantaeth partner yn y maes gorfodi'r gyfraith neu'r maes diogelwch cymunedol.

*Does <u>dim gofyniad</u> i ddatgan unrhyw roddion fel y rhai a nodir uchod yng nghofrestr yr heddlu*

- pryd o fwyd confensiynol yn unol â dyletswyddau'r derbynnydd, er enghraifft, mynychwyr cyfarfod, seminar neu gynhadledd a drefnwyd gan <u>gorff allanol</u>;
- cinio blynyddol cymdeithas gynrychioladol neu awdurdod lleol sydd wedi'i gyfyngu i achlysuron afreolaidd neu untro a gellir dangos y byddai o fudd i'r heddlu fod yn bresennol.

*<u>Dylid</u> datgan y fath gynigion o letygarwch yng nghofrestr yr heddlu*

**<u>Ni</u> fydd lletygarwch yn dderbyniol os yw'n**:

- gyfystyr â derbyn lluniaeth neu fwyd am ddim neu am bris gostyngol, boed ar ddyletswydd neu beidio
- cynnwys gradd o foethusrwydd sydd tu allan i'r cyffredin ar gyfer y diwydiant neu sydd tu hwn i unrhyw synnwyr o resymoldeb neu gwrteisi cyffredin

*Dylid datgan y fath gynigion o letygarwch yng nghofrestr yr heddlu.*

**<u>Darparu Lletygarwch</u>**

Byddai achlysuron caniataol yn cynnwys:

- Dychwelyd lletygarwch a dderbyniwyd o'r blaen gan ymwelwyr â Heddlu Dyfed-Powys;
- Cydnabod cymorth a dderbyniwyd i hyrwyddo prosiect neu ddigwyddiad sy'n gysylltiedig â'r heddlu;
- Gwobrwyo llwyddiannau staff mewn seremonïau gwobrwyo; a
- Darparu'r fforwm ar gyfer cyfnewid sgiliau a phrofiad sy'n gysylltiedig â gweithgareddau sy'n ymwneud â'r heddlu.

Adolygwyd y canllawiau gan yr Adran Safonau Proffesiynol ym mis Medi 2020. Fe'u hadolygir yn flynyddol.

Fel arfer, bydd y rhain yn cynnwys:

- Ciniawau gweithio i alluogi partïon i barhau i drafod busnes
- Bwffes ysgafn *e.e. ar gyfer gwobrau, seremonïau neu lansiadau* – Mae gan Arweinwyr Busnes gyfrifoldeb ar gyfer gwariant o'r fath.

**Derbyn Anrhegion a Lletygarwch gan drydydd partïon**

Gallai derbyn anrhegion neu letygarwch gan drydydd parti ar ran, neu yn lle, rhywun yn rhinwedd ei swydd fel swyddog neu aelod o staff yr heddlu gael yr un canlyniadau â phe bai'r aelod wedi ei dderbyn ei hun. Gan hynny, dylai trydydd parti sy'n derbyn ar ran, neu yn lle, rhywun yn rhinwedd ei swydd fel swyddog neu aelod o staff yr heddlu gydymffurfio â'r canllaw hwn.

**Sefydliadau a Llywodraethau Tramor**

Mae ystyriaethau arbennig yn berthnasol ar gyfer rhoddion a lletygarwch wrth sefydliadau neu lywodraethau tramor. Er bod yr egwyddorion a nodir uchod yn berthnasol yn gyffredinol i letygarwch ac anrhegion o'r fath, gall fod achlysuron lle y gallai gwrthod ymddangos yn anghwrtais neu mae angen cynnig anrheg yn ôl. Dylid adrodd am bob achos o'r fath, a dylid ceisio cyngor gan Reolwyr Uwch ymlaen llaw lle mae angen.

**Alcohol**

Wrth dderbyn lluniaeth mewn digwyddiadau a fynychir er mwyn cynrychioli'r Heddlu (pan nad yw dyletswyddau gweithredol yn cael eu cyflawni) lle mae diodydd alcoholig ar gael, disgwylir i aelodau staff arfer barn a synnwyr cyffredin. Ni ddylai yfed alcohol mewn amgylchiadau o'r fath arwain at achosion o dorri'r gyfraith nac ymddygiad sy'n anghydnaws â'r 'Safonau Ymddygiad Proffesiynol'.

**Ewyllysiau**

Gall fod achlysuron lle mae aelod staff, ei bartner neu berthynas, yn elwa o ewyllys lle mae canfyddiad, **neu lle y gallai fod canfyddiad,** ei fod wedi deillio o gyflogaeth, ymgysylltiad, neu gytundeb neu berthynas busnes a ddatblygwyd drwy ei statws fel aelod o Heddlu Dyfed-Powys. **Yn yr amgylchiadau hynny yn unig,** dylai'r aelod staff gysylltu â Phennaeth yr Adran Safonau Proffesiynol gan amlinellu amgylchiadau'r fantais.

***(Cynhwysir partner neu berthynas fan hyn er mwyn i aelodau staff fod yn effro i'r angen i amddiffyn eu hunain yn erbyn unrhyw gamsyniadau a allai godi, ac i'r sefydliad fod yn barod i ymateb i'r camsyniadau hynny'n briodol. Mae perthynas yn cynnwys partner, priod, rhiant, plentyn, brawd, chwaer, neu briod unrhyw un ohonynt)***

## Nawdd

Dylai staff fedru dangos nad oes cysylltiad rhwng eu dyletswyddau neu swydd gyda Heddlu Dyfed-Powys a'r gweithgarwch sy'n destun y trefniant nawdd.

Er gwaethaf y polisïau sy'n bodoli i alluogi Heddlu Dyfed-Powys i godi gwariant, rhaid dweud wrth y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau am dderbyniad nawdd ar gyfer gweithgareddau chwaraeon grŵp neu unigol sy'n syrthio tu allan i'r amgylchedd gwaith.

Rhestr Wirio ar gyfer Nawdd

- Ni ddylai cyfleoedd nawr fod ar gyfer budd personol;
- Caiff aelod o Heddlu Dyfed-Powys ond ceisio nawdd ar gyfer dibenion elusennol, neu achos elusennol unigol, ac
- Ni ddylai aelod unigol o Heddlu Dyfed-Powys sydd eisiau profi ei lefelau dygnwch ei hun neu ariannu ei antur ei hun ei dderbyn*, e.e. y defnydd o'r offer sydd angen i ddringo mynydd Everest neu fenthyg cwch hwylio i hwylio o gwmpas y byd.* Yr unig eithriad i hyn fyddai dilyn menter codi arian elusennol, naill ai ar sail unigol neu fel rhan o grŵp. Fodd bynnag, rhaid dweud wrth yr Uwch Reolwr perthnasol ymlaen llaw am yr amgylchiadau, a dylid ond cymryd rhan yn y digwyddiad os rhoddir cymeradwyaeth.
- Mae noddi gweithgareddau chwaraeon, megis timoedd sy'n cynrychioli Heddlu Dyfed-Powys, yn dderbyniol ar yr amod y nodir yn glir ymlaen llaw beth mae pob parti'n disgwyl o'r weithgarwch. Yn achos noddi gweithgareddau chwaraeon sy'n dod o'r diwydiant trwyddedu, *e.e. bragdy*, dylai'r Prif Gwnstabl neu'r Dirprwy Brif Gwnstabl gymeradwyo cytundeb o'r fath ymlaen llaw.

Lle mae gan aelodau staff unrhyw amheuon ynghylch rhoi neu dderbyn trefniadau nawdd cymdeithasol neu chwaraeon, dylent geisio cyngor gan yr Uwch Reolwr priodol.

**Buddiannau Staff mewn Cytundebau**

Mae amodau safonol cytundebau llywodraeth yn gwahardd contractwr rhag cynnig anrhegion neu ystyriaeth arall o unrhyw fath ar gyfer y diben o gael triniaeth ffafriol mewn cysylltiad â'r cytundeb. Yn arbennig, **rhaid gwrthod** gwahoddiadau neu anrhegion a dderbynnir gan gwmni yn ystod y broses o dendro.

Ni dderbynnir anrheg neu unrhyw ystyriaeth arall gan unrhyw gontractwr, neu gontractwr posibl, sy'n rhan o broses dendro gyda'r heddlu, neu rywun y gallai unigolyn rhesymol â gwybodaeth resymol ragweld y byddai'n rhan o berthynas fusnes yn y dyfodol.

Lle mae unrhyw aelod o'r heddlu'n derbyn lletygarwch drwy bryd bwyd neu luniaeth yn ystod cynhadledd neu seminar a gynhelir gan gontractwr, neu gontractwr posibl, yn ystod y broses dendro, **dylid cofnodi'r ffaith hwn ar y Gofrestr Anrhegion a Lletygarwch Ar-lein.**

Rhaid i bob aelod staff fod yn ofalus nad yw'n ymrwymo Heddlu Dyfed-Powys yn ddiarwybod i rwymedigaethau cytundebol wrth ymateb i ymholiadau ysgrifenedig neu lafar, neu eu cychwyn, gyda chyflenwyr neu gontractwyr. Ar gyfer pob penderfyniad cytundebol, rhaid glynu wrth Reolau Sefydlog ar gytundebau. **Dylid ymgynghori â Swyddogion Caffael yr Heddlu am gyngor.**

Ni all aelod o staff Heddlu Dyfed-Powys ymrwymo i gytundeb o dan yr amgylchiadau canlynol; pan mae'n hysbys fod y cytundeb:

- gan, neu gyda, eu partner,
- neu eu perthnasau;
- neu gydag unrhyw bartneriaeth busnes y mae'r unigolyn neu aelod o'i deulu'n aelod hysbys;
- gyda rhywun / busnes lle mae perthynas bersonol/perthnasau personol agos yn bodoli;

- neu gydag unrhyw gwmni lle mae aelod staff neu bartner o'r fath neu aelod teulu'n gyfarwyddwr, heblaw bod y buddiant busnes a maint ei gysylltiad yn cael ei ddatgelu'n ysgrifenedig.

Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid yn rhoi cyngor cyfrinachol yn ysgrifenedig i unrhyw aelod o staff sy'n ystyried ei fod o bosibl yn y sefyllfa hwn. Ar ôl adrodd amdano, cyfrifoldeb y Cyfarwyddwr Cyllid yw rhoi caniatâd, yn ysgrifenedig, i'r cytundeb fynd rhagddo.

Ni chaiff aelod staff fod yn rhan o swydd cyfarwyddwr, na derbyn swydd cyfarwyddwr, gydag unrhyw gwmni sy'n dal cytundeb gyda Heddlu Dyfed-Powys, heb ganiatâd ysgrifenedig y Prif Gwnstabl.

Gall fod adegau pan mae aelodau staff yn dod i gysylltiad swyddogol â sefydliad busnes, sydd wedi'i gontractio i Heddlu Dyfed-Powys, y mae ganddyn nhw, neu aelod o'r teulu, fuddiant hysbys. Yn yr amgylchiadau hyn, rhaid i'r gweithiwr ddatgelu'r buddiant hwn yn syth wrth y rheolwr llinell perthnasol, a fydd yn gofyn i rywun arall ymdrin â'r busnes hwnnw. Yn ogystal, pan mae unigolyn yn datgelu buddiant busnes mewn sefydliad, sy'n cymryd rhan mewn ymarfer caffael, rhaid i bennaeth yr adran / maes plismona gyflwyno'r manylion hynny'n ysgrifenedig yn syth i'r Cyfarwyddwr Cyllid dan amodau cyfrinachol.

Ni fydd unrhyw aelod staff sy'n gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â chytundebau swyddogol neu brynu nwyddau neu wasanaethau'n datgelu manylion personol am eu hunain neu unigolion eraill i gontractwr ar gyfer dibenion cyswllt preifat, *e.e. cyfeiriad cartref, cyfeiriad e-bost neu rif(au) ffôn.*

**<u>Cytundebau a Phrynu (Cyffredinol)</u>**

Mae fframweithiau ar gyfer ymrwymo i gytundebau a'u trafod. Mae'r rhain yn darparu set o reolau y mae'n rhaid glynu'n llym wrthynt. Mae cyngor ysgrifenedig neu anffurfiol bob amser ar gael wrth swyddogion caffael yr heddlu.

**Mae cynnig anrheg neu ystyriaeth arall o unrhyw fath fel cymhelliad i gymryd camau gweithredu neu oddefgarwch mewn perthynas â chytundeb yn anghyfreithlon.**

Os oes unrhyw un yn mynd at aelod staff mewn cysylltiad â chytundeb, neu â'r

bwriad o gael triniaeth ffafriol cyn y bydd cytundeb yn cael ei dderbyn, rhaid adrodd am hyn yn syth wrth reolwr llinell, a fydd yn rhoi gwybod i Adran Safonau Proffesiynol Pencadlys yr Heddlu.

Soniwyd am ddarpariaeth lletygarwch yn gynharach yn y ddogfen hon, fodd bynnag, rhaid i holl aelodau Heddlu Dyfed-Powys ddeall y gall darpariaeth lletygarwch gan gyflenwyr gynrychioli cais i drechu'r rheolau ar dderbyn gwobrwyon. Serch hynny, derbynnir y gall y cytundeb anffurfiol a grëir gan gynigion o letygarwch fod yn fuddiol weithiau i gyd-ddealltwriaeth a chynnal busnes yn effeithlon.

Gellir derbyn lletygarwch cymedrol o bryd i'w gilydd, ond yn yr un modd â rhoi neu dderbyn lletygarwch (gweler uchod), mae rheolau tebyg ar gyfer derbyn yn berthnasol. Fodd bynnag, o ran y mater o deithio neu lety am ddim, mae'n debygol o gael ei ystyried yn awtomatig fel rhywbeth sydd wedi dylanwadu ar benderfyniad, a rhaid ei wrthod. Serch hynny, mewn amgylchiadau arbennig, a lle bo'n briodol, gellir sicrhau cymeradwyaeth gan yr Uwch Reolwr.

Gall cynigion o letygarwch ddigwydd ar sawl ffurf, a dylai cyfeirio at yr egwyddorion arweiniol (gweler uchod) nodi priodoldeb unrhyw gynnig o'r fath.

Fel ag anrhegion a rhoddion, heblaw pan y caniateir derbyn o dan y gorchymyn hwn, rhaid cofnodi pob cynnig o letygarwch, sy'n cael ei dderbyn neu ei wrthod, ar y gofrestr rhoddion a lletygarwch ar-lein.

Pan mae'n amlwg y byddai gwaith Heddlu Dyfed-Powys yn cael ei hwyluso, dylid derbyn, neu wrthod, gwahoddiadau i dderbyniadau, cynadleddau, ciniawau, partïon coctel a digwyddiadau o'r fath yn unol â'r fframwaith ganlynol:

- Drwy wahoddiad, sydd wedi'i gymeradwyo gan yr Uwch Reolwr
- Gwrthodir unrhyw wahoddiad a dderbynnir gan gwmni y gŵyr ei fod yn y broses o dendro am waith gyda Heddlu Dyfed-Powys yn ddi-eithriad.
- Rhaid i staff sy'n gysylltiedig ag unrhyw broses dendro ac sy'n ymdrin â chontractwyr fod yn glir am y cysyniadau a'r gwahaniad o rolau contractwr a chleient. Rhaid i aelodau staff uwch sydd â rôl cleient a chontractwr fod yn ymwybodol o'r angen ar gyfer atebolrwydd a didwylledd bob amser.

Adolygwyd y canllawiau gan yr Adran Safonau Proffesiynol ym mis Medi 2020. Fe'u hadolygir yn flynyddol.

- Rhaid i staff mewn rolau cleient neu gontractwr arfer tryloywder, tegwch ac amhleidioldeb bob amser wrth ymdrin â phob cwsmer, cleient, contractwr ac is-gontractwr a'u hasiantiaid.
- Ni fyth staff sydd â mynediad at wybodaeth gyfrinachol am dendrau neu gostau ar gyfer contractwyr mewnol neu allanol yn datgelu'r wybodaeth honno i unrhyw sefydliad neu barti anawdurdodedig.
- Bydd staff hefyd yn sicrhau na ddangosir ffafriaeth tuag at aelodau staff presennol neu gyn-aelodau staff, eu partneriaid, perthnasau neu gymdeithiau wrth wobrwyo cytundebau i fusnesau sy'n cael eu rhedeg ganddynt neu sy'n eu cyflogi.

***Mae gan aelodau staff ddyletswydd i sicrhau nad oes unrhyw ffafr yn cael ei roi a bod eu gweithredoedd yn medru gwrthsefyll craffu. Dylai eu gweithredoedd ymddangos yn fanwl ac ni ddylent roi'r argraff bod ffafrau'n cael eu rhoi mewn perthynas â chytundebau o'r fath.***

**<u>Cyflogaeth Eilaidd a Buddiannau Busnes Gweithwyr</u>**

Mae polisi ar gyfer swyddogion heddlu a staff heddlu'n ymdrin a'r pwnc hwn. Ni ddylai unrhyw aelod staff sy'n gysylltiedig â chyflogaeth eilaidd wneud unrhyw beth sy'n awgrymu bod Heddlu Dyfed-Powys yn cefnogi'r gweithgareddau y mae'r unigolyn hwnnw'n ymgymryd â nhw fel rhan o'i gyflogaeth eilaidd, neu'n gysylltiedig â nhw.

**<u>Triniaeth Deg</u>**

Rhaid trin pob cwsmer, waeth pa un ai a yw'n aelod o'n cymuned neu'n gyswllt busnes, gan gynnwys y rhai sy'n mynegi diddordeb mewn tendro ar gyfer busnes, yn dryloyw, onest, teg a chyfartal.

Lle mae Heddlu Dyfed-Powys yn bartner mewn consortiwm, bydd pob aelod consortiwm yn cael ei drin yn gyfartal.

Ni ddylai fod modd camddehongli unrhyw gysylltiad rhwng Heddlu Dyfed-Powys neu gontractwr fel ardystiad masnachol o'r cynnyrch/gwasanaeth neu'n wahaniaethol yn erbyn cystadleuwyr. Rhaid i bob aelod staff, yn arbennig yr aelodau hynny sydd yn gyfrifol am brynu, ddangos i gyflenwyr eu bod nhw'n ddiduedd bob amser ac yn reolwyr arian cyhoeddus cyfrifol.

Adolygwyd y canllawiau gan yr Adran Safonau Proffesiynol ym mis Medi 2020. Fe'u hadolygir yn flynyddol.